**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6**

**Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

**Adroddiad 2020-2022**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**



**CONTENTS**


**Crynodeb** **3**

**1.0 Cyflwyniad a chynnwys** **4**

**2.0 Uchafbwyntiau, canlyniadau allweddol a phroblemau** **5**

**3.0 Sylfaen tystiolaeth a fframwaith polisi** **6**

**3.1 Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur** **7**

**3.2 Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen, Adroddiad Mannau Agored ac Asesiad.** **8**

**4.0 Adroddiad Gweithredu Adran 6** **9**

**4.1 Amcan 1 NRAP: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel** **9**

**4.1.1 Camau a gymerwyd** **10**

**4.2 Amcan 2 NRAP: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well** **13**

**4.2.1 Camau a gymerwyd** **13**

**4.3 Amcan 3 NRAP: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd** **15**

**4.3.1 Camau a gymerwyd** **15**

**4.4 Amcan 4 NRAP: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd** **16**

**4.4.1 Camau a gymerwyd** **16**

**4.5 Amcan 5 NRAP 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro** **18**

**4.5.1 Camau a gymerwyd** **18**

**4.6. Amcan 6 NRAP: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion** **20**

**4.6.1 Camau a gymerwyd** **20**

**5.0 Arolwg o ddyletswydd A6: Rheoli perfformiad ac argymhellion ar gyfer gwella** **20**

**Tabl 1: Argymhellion** **21**

**Atodiad 1. Astudiaethau Achos** **23**

| | | |
|---|---|---|
| **a.** | **Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru (SEWRU).** | **23** |
| **b.** | **Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW): Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen – LNR Cymru** | **24** |
| **c.** | **Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW): Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** | **25** |
| **d.** | **Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW): Gwent Fwyaf Gydnerth (RGG)** | **26** |
| **e.** | **Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW): Prosiect Grid Gwyrdd Gwent (GGGP)** | **27** |
| **f.** | **Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Henllys (LNR)** | **29** |

# Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli rhwymedigaeth adrodd bob tair blynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer 2020-22 fel sy'n ofynnol dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a elwir fel arall yn ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau cyrff cyhoeddus, neu'r ddyletswydd A6. Mae fformat yr adroddiad yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu cyfraniad yr awdurdod lleol i chwe amcan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Adfer Natur (NRAP) 2020.

Dyma'r ail adroddiad cydymffurfio ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan ystod eang o swyddogion y Cyngor. Cafwyd ymatebion manwl gan swyddogion yn y Tîm Polisi Amgylchedd Naturiol a Gweithrediadau Strydlun, Rheoli Datblygu, Amddiffyn y Cyhoedd, Adfywio Strategol, Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg, Eiddo (Rheoli Ynni), Polisi Cynllunio a Gweithredu a'r Uned Cymorth Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC).

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cynnydd arwyddocaol yn lefel yr ymgysylltiad gyda dyletswydd A6 o amrediad ehangach o wasanaethau'r Cyngor, gyda llawer mwy o gyfraniadau rhagweithiol i waith paratoi'r adroddiad hwn. Mae llawer o enghreifftiau o arferion da megis integreiddiad parhaus dyletswydd y cyrff cyhoeddus i'r broses o gynllunio defnydd tir, y cynnydd sylweddol a wnaed o ran arallgyfeirio rheolaeth mannau gwyrdd, y Datganiadau Argyfwng Hinsawdd a Natur gyda'u cyd-gynllun gweithredu a strwythur cyflenwi, a Strategaethau Gwyrdd a Choed cyntaf Torfaen.

Mae prosiectau tirwedd trawsffiniol mawr fel Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru (SEWRU), Gwent Fwyaf Gydnerth (RGG), Prosiect Grid Gwyrdd Gwent (GGGP) a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) wedi dangos gwerth gwaith partneriaeth dros ardal ehangach. Mae gan yr awdurdod lleol hefyd Bartneriaeth Natur ar y cyd â Blaenau Gwent.

At hyn, mae rhaglen dreigl o reoli cynefinoedd ar bob un o'r Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNRs) a rhaglen strategol torri grug ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Blorenge yn cyfrannu at ein rhwymedigaethau statudol fel tirfeddiannwr ynghyd â rheoli perygl tân. Mae 14% o laswelltir awdurdod lleol nawr yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth a storio carbon drwy ddull torri a chasglu blynyddol. Mae camau eraill yn cynnwys adfer dolydd, plannu coed, pori cadwraethol a rheoli cynefinoedd afon.

Mae cymryd penderfyniadau cynaliadwy yn dibynnu ar argaeledd sylfaen tystiolaeth dda. Mae gwaith ar Asesiad Seilwaith Gwyrdd gyda'i haenau GIS wedi'u diweddaru a mynediad parhaus at ddata bioamrywiaeth o Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC) yn ffynonellau cyfeirio pwysig i swyddogion prosiect a'r sawl sy'n cymryd penderfyniadau. Gwnaed cynnydd ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP) gyda gwybodaeth o astudiaethau Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) ynghyd ag asesiadau safleoedd posibl ecoleg a thirwedd. Mae dadansoddiad GIS o laswelltir a reolir gan y cyngor wedi helpu i gyfuno gwybodaeth ofodol bresennol a nodi cyfleoedd at y dyfodol. Cyhoeddwyd asesiad

newydd o fioamrywiaeth drwy Adroddiad Cyflwr Natur Gwent ac yna Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Gwent (NRAP).

Mae fframwaith o lywodraethu a chefnogaeth i'r ddyletswydd bioamrywiaeth nawr wedi ei wreiddio o fewn datblygiad polisi a'r hyn y gellir ei gyflawni yn y Cynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur, ynghyd a Strategaeth Seilwaith Gwyrdd 2020, y Strategaeth Goed a Chynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau'r Cyngor 2019 (BERP), ac oll yn ychwanegu pwysau i fframwaith polisi cynyddol i weithredu dyletswydd Adran 6.

Ynghyd â manylu pwysau camau positif a gymerwyd ers 2019, nododd yr ymgynghoriad gyda swyddogion rai bylchau, felly yn unol â thempled adrodd A6 Llywodraeth Cymru, awgrymir nifer o gamau gweithredu i helpu i gyfrannu tuag at wreiddio'r ddyletswydd a6 ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

## 1.0 Cyflwyniad a chyd-destun

Mae cynllun a chynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn canllawiau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Llywodraeth Cymru, Rhan 1: Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Canllawiau Adrodd 2019.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae'r ddyletswydd a6 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus **'yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled a'i fod yn gyson gydag arfer priodol eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.** I gydymffurfio gyda'r ddyletswydd, dylai awdurdodau wreiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu meddwl a'u cynllunio busnes cynnar, ynghyd â mewn gweithgareddau beunyddiol.

Nodweddion amgylchedd naturiol y Fwrdeistref Sirol yw gweundiroedd grugog, coedlannau hynafol a dolydd cyfoethog mewn blodau gwyllt sy'n cefnogi bywyd gwyllt sy'n dirywio'n genedlaethol ac sy'n bwysig yn lleol. Mae llawer o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd yn bwysig iawn yng Nghymru fel y'u rhestrir dan adran 7 (A7) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae gan Dorfaen hefyd bedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Leol (LNR) ynghyd â mwy na 150 o Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC). Mae Afon Lwyd, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a'r mannau gwyrdd sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith beicio yn goridorau llinellol strategol i fywyd gwyllt sy'n ymestyn ar hyd a lled y fwrdeistref sirol, a chyda nodweddion eraill fel y canopi coed trefol mwyaf yng Nghymru a chynnydd mewn arallgyfeirio glaswelltir trefol mae popeth yn cyfuno i ffurfio nodweddion craidd Seilwaith Gwyrdd Torfaen (SG)

Mae gweithredu dyletswydd a6 yn cyfrannu tuag at gyflenwi dyletswyddau statudol eraill, yn enwedig y ddyletswydd datblygiad cynaliadwy dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022 gyda'i darged carbon sero net. Mae Cynllun Llesiant Torfaen 2018-2023 a gynhyrchwyd gan y bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol (BGC) wedi ymgorffori yr amgylchedd yn ei amcanion.

I helpu i gydgysylltu gweithrediad dyletswydd a6 ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor, paratowyd Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2019. Mae hwn yn cynnwys cynllun o weithredu yn erbyn amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP). Mae cyflenwi'r cynllun hwn a'r camau gweithredu ynddo nawr yn ffurfio rhan o ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd yn Nhorfaen ym mis Mehefin 2019 a'r Argyfwng Natur a ddatganwyd wedyn ym mis Medi 2021.

Mae paratoi'r adroddiad hwn wedi cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori gydag ystod eang o swyddogion ac adrannau'r Cyngor, gan gynhyrchu amrediad o ymatebion manwl.

## 2.0 Uchafbwyntiau, canlyniadau allweddol a phroblemau

Drwy ganllawiau a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru rhifyn 11 2021, mae timau Rheoli Datblygiad a Pholisi Cynllunio a Gweithredu Torfaen yn parhau i gysylltu'n rhagweithiol gyda'r ddyletswydd a6, drwy sicrhau bod holl geisiadau cynllunio yn ceisio cynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth positif (cynnydd net) lle mae hynny'n berthnasol.

Mae'r Grŵp Polisi Amgylchedd Naturiol a Gweithrediadau Strydlun yn gyfrifol am reoli'r rhan fwyaf o stad feddal y Cyngor. Dangosir hyn drwy raglen o reoli glaswelltir trefol ac ystyriaethau iechyd a diogelwch coed. Drwy addasu arferion gwaith, mae'r tîm wedi cyflwyno rhaglen dorri a chasglu lwyddiannus sy'n gyfeillgar i natur. Mae 14% o laswelltir trefol y cyngor nawr yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth drwy dorri unwaith y flwyddyn gyda tharged i gynyddu hyn mewn blynyddoedd i ddod.

Mae'r addasiadau hyn wedi bod yn bosibl gydag argaeledd offer newydd a ariennir drwy raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru a thrwy gefnogaeth brwdfrydig staff Gweithredol Strydlun. Mae arolygon o deimladau'r cyhoedd, gan gynnwys un diweddar a ymgymerwyd drwy Brosiect Natur Wyllt Grid Gwyrdd Gwent, yn dangos cefnogaeth gref y cyhoedd tuag at reoli mannau gwyrdd ar gyfer natur.

Mae'r cyfrifoldeb am goed yn syrthio o fewn nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'r Tîm Rheoli Datblygu yn ystyried coed drwy'r broses gynllunio ynghyd â'r drefn Gorchymyn Gwarchod Coed (TPO) ac mae'r Tîm Rheoli Asedau yn ystyried coed wrth ystyried gwaredu tir. Mae'r Grŵp Polisi Amgylchedd Naturiol a Gweithrediadau Strydlun yn gyfrifol am reoli a chynyddu adnoddau coed y Cyngor. O ystyried gwerth amgylcheddol coed, mae Strategaeth Goed a gymeradwywyd gan y Cyngor yn dwyn ynghyd cyfrifoldebau'r holl adrannau perthnasol dan un cynllun sengl.

Mae gan y Tîm Polisi Amgylchedd Naturiol a Gweithrediadau Strydlun gyfrifoldebau ymarferol o ran rheoli llystyfiant mewn perthynas â hawliau Tramwy Cyhoeddus, Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ym meddiant yr awdurdod lleol, mae rhaglen barhaus o reolaeth wedi gwella cyflwr yr LNR ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Mae prosiectau ymarferol a ariennir drwy Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru wedi bod yn offerynnol o ran hybu newid mewn ymddygiad o ran rheolaeth seilwaith gwyrdd. Ysgogodd cyfranogiad cymunedol ar un safle ymweliad gan Julie James Aelod y Senedd ar gyfer newid yn yr hinsawdd, i weld y newidiadau mewn rheoli glaswelltir sydd wedi digwydd.

Gwelir tystiolaeth o ddatblygu polisi ac integreiddio'r ddyletswydd a6 mewn cynlluniau, prosiectau a rhaglenni drwy baratoad Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored drafft. Mae'r rhain wedi darparu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu lleol newydd a'r haen seilwaith gwyrdd newydd ar haen fewnol GIS y Cyngor. Mae newid yn yr hinsawdd a dirywiad mewn natur yn ddwy ochr o'r un geiniog ac felly  mae trafodaeth at uno'r ddyletswydd A6 gyda thargedau carbon sero net a'r Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi cynorthwyo gydag integreiddio bioamrywiaeth ym mholisi'r Cyngor.

Er bod yna ddealltwriaeth ehangach nawr o'r ddyletswydd A6 ar draws meysydd gwasanaeth mae rhai bylchau b=cydymffurfio ar ôl. Mae angen ymgysylltu parhaus gydag arweinwyr timau megis Rheoli Asedau, Rheoli Eiddo, Priffyrdd a Pheirianneg a Draenio a Rheoli Llifogydd yn angenrheidiol i sicrhau bod risgiau cydymffurfio yn cael eu lleihau ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd.

Er gwaethaf hyn, yn gyffredinol bu newid calonogol o ran sut mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei werthfawrogi a'i integreiddio mewn cymryd penderfyniadau o ddydd i ddydd a gweithgareddau gweithredol y Cyngor.

# 3.0 Sylfaen tystiolaeth a fframwaith polisi

Yn ystod 2020-2022, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu sylfaen tystiolaeth a fframwaith polisi i gynorthwyo gyda rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r cynlluniau, polisïau a strategaethau lleol a rhanbarthol canlynol yn ffurfio'r sylfaen tystiolaeth hwnnw a'r fframwaith polisi ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd A6 o lefel genedlaethol i lefel leol.

**Cenedlaethol (Cymru)**

- Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020.
- Y Cynllun Adfer Natur ar gyfer Cymru (NRAP) 2020.
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11. 2022.
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009.

**Rhanbarthol (De0ddwyrain Cymru)**

- Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru 2020.
- Adroddiad Cyflwr Natur Gwent 2021.
- Cynllun Gweithredu Seilwaith gwyrdd ar gyfer Peillwyr yn Ne-ddwyrain Cymru 2015.
- Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ar gyfer De-ddwyrain Cymru.
- Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol Ucheldiroedd De-ddwyrain Cymru.
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent (NRAP) 2022.

**Lleol (Torfaen)**

- Cynllun Sirol Drafft 2022
- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd 2020.
- Asesiad Drafft Seilwaith Gwyrdd 2022.
- Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (BERP) 2019.
- Strategaeth Goed 2021.
- Cynllun Llesiant 2018 -2023.
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) 2002.
- Cynllun Datblygu Lleol 2013.
- Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022.
- Adroddiad ac Asesiad Drafft Mannau Agored 2021.

### 3.1 Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur.

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r pum bygythiad pennaf i fioamrywiaeth. Ym mis Mehefin 2019, datganodd yr Aelodau etholedig argyfwng hinsawdd, ac yna argyfwng natur yn 2021. Mewn ymateb datblygwyd **Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd**

**a Natur** a oedd yn cynnwys swyddogion ar draws y Cyngor gan gynnwys Arweinwyr, y Fforwm Datblygu Polisi a'r Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth.

I helpu i ddatblygu'r Cynllun, ymgynghorwyr gyda chymunedau ledled Torfaen am eu syniadau nhw ar sut i leihau carbon. Cyd-darodd ymgysylltiad pellach gyda Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) ac yna sefydlwyd Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd.

Yn 2022, cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen ac i ymateb yn benodol i'r argyfwng natur, bydd y Cyngor yn:

- Gweithio i ddeall faint o garbon sy'n cael ei storio yn y tir yn ein meddiant er mwyn cyfeirio adnoddau yn well i'r mannau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf;
- Gwella rheolaeth seilwaith gwyrdd ar dir ym meddiant y Cyngor;
- Gwneud y mwyaf o enillion bioamrywiaeth drwy'r broses gynllunio;
- Cyflenwi ymrwymiadau'r Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (BERP);
- Hyfforddi staff ac Aelodau etholedig i ddeall eu rôl yn y daith carbon sero ac ymateb i'r argyfwng natur;
- Ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur wrth gymryd penderfyniadau. Gwneir hyn drwy gynnwys newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn Asesiadau Effaith Integredig y Cyngor (IIA);
- Sefydlu is-grŵp Cabinet i gefnogi cyflenwi'r cynllun gweithredu argyfwng hinsawdd a natur.

## 3.2 Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen a'r Adroddiad AC Asesiad Mannau Agored.

Mae **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen** wedi ei dylunio i gynorthwyo gyda llunio a chydgysylltu cyflenwi seilwaith gwyrdd yn Nhorfaen, i ddarparu manteision lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn dangos sut gall seilwaith gwyrdd helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd, gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chefnogi byw yn iach a llesiant, a chefnogi twf cynaliadwy a datblygiad economaidd ar yr un pryd.

Yn gyffredinol, ar lefel strategol, mae Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Torfaen yn helaeth ac yn gyffredinol wedi ei gysylltu'n dda, ac mae llawer ohono yn hygyrch. Ar lefel leol, yn enwedig yn ac o amgylch trefi Torfaen, mae cyfleoedd penodol i gryfhau ansawdd, cysylltedd a hygyrchedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu fframwaith strategol neu'r "darlun mawr" i ddatblygu rhwydwaith cysylltiedig swyddogaethol o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol y poblogaethau lleol yn Nhorfaen (amcan 1 Cynllun

Llesiant Torfaen). Mae’n amlinellu egwyddorion, blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau cydnerthedd a chysylltedd Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Torfaen.

Ymhellach i’r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, mae **Adroddiad AC asesiad Mannau Agored** 2021 yn darparu asesiad gyda mwy o ffocws i helpu i amddiffyn a chreu rhwydwaith o fannau agored o ansawdd uchel gyda manteision amlswyddogaethol. Unwaith y bydd wedi ei fabwysiadu, bydd yr asesiad yn bwydo gwybodaeth i Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) y Cyngor, yn bennaf o ran darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd ac amddiffyn mannau agored presennol. Bydd yn adeiladu ar Strategaeth Seilwaith Gwyrdd lefel uchel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC) drwy ddarparu asesiad mwy safle-benodol o fannau gwyrdd ac fe gaiff ei ddefnyddio ar gyfer rheoli mannau agored ac fel mecanwaith i gyfeirio cyllid i safleoedd priodol lle gellir gwneud gwelliannau i nifer, ansawdd a hygyrchedd mannau agored. Bydd yr asesiad yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig yn cael ei fabwysiadu o ran diwallu anghenion mannau agored CBST a datblygu rhwydwaith mannau agored y Fwrdeistref Sirol. Gyda’r Adroddiad Mannau Agored mae asesiad, proffiliau ward a blaenoriaethau buddsoddi. Gyda’i gilydd, mae’r dogfennau hyn yn ffurfio’r sylfaen tystiolaeth a’r strategaeth ar gyfer amddiffyn a gwella asedau seilwaith gwyrdd ledled y fwrdeistref.




*Map enghreifftiol o asedau seilwaith gwyrdd yng Nghwmbrân*

## 4.0 Adroddiad gweithredu Adran (a6)

Mae’r adran hon yn gasgliad o gamau gweithredu a gymerwyd ledled yr awdurdod lleol i gefnogi’r ddyletswydd S6. Mae’r camau wedi eu rhestru dan bob amcan NRAP. Noder bod rhai camau yn cyfrannu at fwy nag un amcan.


## 4.1 Amcan 1 NRAP: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

Mae'r amcan hwn yn mesur camau a ymgymerwyd i wreiddio'r ddyletswydd a6 wrth gymryd penderfyniadau ac ar draws gwasanaethau'r cyngor. Mae cyfres o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau ar draws nifer o feysydd gwasanaeth yn darparu fframwaith ar gyfer yr amcan hwn. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r mesurau a'r gweithgareddau a ymgymerwyd i godi ymwybyddiaeth o a6 ar draws adrannau

### 4.1.1 Camau a gymerwyd

- Mae **Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau** unigol yn bodoli sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwreiddio bioamrywiaeth yn ei swyddogaethau beunyddiol. Mae cynnydd ar y cynllun hwn yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Cyflenwi Newid yn yr Hinsawdd. Lle bo angen bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

- Mae'r **Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur** a'r is-grŵp Cabinet nawr yn bodoli (gweler astudiaeth achos).Mae **adnoddau E-ddysgu** i staff yn cael eu datblygu gyda'r nod o hyfforddi 1000 aelod staff erbyn 2027. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y pedwar maes canlynol.




**Modiwl 1: Newid yn yr Hinsawdd**
**Modiwl 2: Natur yn Dirywio**

**E-ddysgu Argyfwng Hinsawdd a Natur**

**Modiwl 3: Beth ydyn ni yn ei wneud, beth allwch chi ei wneud a sut beth yw llwyddiant**
**Modiwl 4: Llesiant ehangach a phrofi eich dealltwriaeth**

- **Cynllun Corfforaethol 3 Torfaen 2016-21** - yn cynnwys glanhau a gwyrddio fel un o'r tri maes blaenoriaeth. Y weledigaeth yw:

  *Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono.*

- Mae'r **Cynllun Sirol drafft a Datganiad Llesiant** yn nodi amcanion lles y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys amcan i:

  *Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol.*

- Mae **Cynlluniau Busnes a Gwasanaethau Torfaen** yn bodoli i helpu gyda chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant Torfaen. Mae gan yr Uned Amgylchedd a Gweithrediadau Strydlun gyfrifoldeb arweiniol o ran polisi amgylcheddol. Mae'r cynllun gwasanaeth yn pennu'r weledigaeth ganlynol:

  1. *Rydym yn darparu polisi a chyngor amgylcheddol o ddydd i ddydd i'r Cyngor yn ehangach ac i randdeiliaid mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd, coed, mynediad, mannau chwarae, gwasanaethau mynwentydd a rhandiroedd;*

  2. *Rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd;*

  3. *Rydym yn rhoi cyngor i Dorfaen a'r Bwrdd gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar rôl seilwaith gwyrdd mewn perthynas â chyflawni lles;*

  4. *Rydym yn sicrhau cyllid allanol i gefnogi gweithgareddau o fewn blaenoriaeth cynllun y tîm a blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

- Mae **Cynllun Llesiant Torfaen 2018-23** a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yn cynnwys dau amcan bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, sef:

  Amcan 1 – datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei chydgysylltu o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol ar gyfer poblogaethau lleol

Amcan 2 – datblygu ymatebion addasu a lliniaru i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

- Mae protocolau adrodd mewnol yn cynnwys **Templed Asesiad Llesiant** gyda chysylltiadau i amcanion y Cynllun Llesiant, y pum dull o weithio a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae hwn yn ofyniad mandadol ar gyfer adroddiadau mewnol swyddogion a phenderfyniadau a gymerir gan y cyngor.

- Mae **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen** y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn pennu pwysigrwydd seilwaith gwyrdd a glas, gyda gweledigaeth a rennir. Mae'n dweud:

  *Mae gan Dorfaen rwydwaith seilwaith gwyrdd aml-swyddogaeth gyda chysylltiadau da o fioamrywiaeth unigryw a mannau naturiol cadarn sy'n darparu lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer pobl, ein hadnoddau naturiol a'n ecosystemau yn cael eu rheoli mewn dulliau cynaliadwy, amddiffyn a gwella cyfanrwydd a chysylltedd y rhwydweithiau. Mae rhyngddibyniaeth bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth gyfoethog Torfaen yn cael eu cydnabod yn eang.*

- Mae **Adroddiad ac Asesiad Mannau Agored** drafft yn mynd gyda Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen drwy ddarparu mwy o fanylion ar werth asedau seilwaith gwyrdd i helpu gyda chymryd penderfyniadau defnydd tir cynaliadwy.

- Nod **Strategaeth Coed Torfaen 2021** yw cyfuno, mewn un dogfen drosfwaol, ddull y Cyngor o ddelio gydag amddiffyn, gwella rheoli coed a choedlannau trefol yn ddiogel. Mae'n pennu chwe amcan:

- Mae'r drefn o **reoli perfformiad mewnol** yn cynnwys allbynnau bioamrywiaeth gan gynnwys *tir dan reolaeth bositif ar gyfer bioamrywiaeth.*

- Mae staff ecoleg a thirwedd yn gweithio ar bob cam o'r broses **cynllunio defnydd tir.** Ymgynghorir gyda swyddogion ar geisiadau cynllunio a chyfeiriad polisi, ac maent yn mynychu cyfarfodydd cynllunio, ymweliadau safle a gwrandawiadau apeliadau cynllunio yn rheolaidd. Cynigir yr holl gyngor yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru 11 a Chynllun Datblygu Lleol Torfaen a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol (TAN).

- Mae cadw a gwella bioamrywiaeth wedi ei integreiddio yn y **Cynllun Datblygu Lleol Newydd,** gyda newid arfaethedig mewn polisi i warchod holl seilwaith gwyrdd o fewn ffiniau trefol.

- Cyhoeddi **Nodyn Canllawiau Arolwg Ecolegol (2020**), Canllawiau Uwchgynllun Briff Datblygu (2020) a'r Canllawiau drafft Cynllunio Atodol ar Estyniadau a Newidiadau i Dai – mae'r rhain oll yn cynnwys gofynion dyletswyddau a6.

- Mae cynigion i werthu mannau gwyrdd ym meddiant yr awdurdod lleol yn cael eu trin gan **Dîm Rheoli Asedau** Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ymgynghorir yn rheolaidd gyda swyddogion ecoleg a thirwedd ar gynigion i werthu tir. Hefyd, mae cyngor wedi ei roi ar y gofyniad i arolygu ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig Ewropeaidd (EPS) cyn gwaredu adeiladau mawr.

- Datganwyd **Argyfwng Hinsawdd a Natur** gan y Cyngor gydag ymrwymiad i baratoi cynllun gweithredu. Dilynwyd hyn gan weithdy pwyllgor Craffu Trawsffiniol.

- Ymgynghorir gydag Arweinydd Tîm Ecoleg a Pholisi Tirwedd ar bob **cais am ganiatâd i ddraenio tir cyrsiau dŵr arferol** dan ddarpariaethau'r Ddeddf Draenio Tir 1991.

- Mae **Asesiad Seilwaith Gwyrdd Torfaen** yn bodoli i helpu gyda chymryd penderfyniadau cynaliadwy mewn perthynas â nifer, ansawdd a hygyrchedd asedau seilwaith gwyrdd yn Nhorfaen.

- Mae rheoli adnoddua naturiol yn thema drawsffiniol sy'n cyd-fynd â gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth dan y **ddyletswydd datblygiad cynaliadwy** yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

- Cyflwynwyd amrywiaeth o gyflwyniadau a gweithdai a6/seilwaith gwyrdd ar draws y gwasanaethau, gan gynnwys i gynghorwyr drwy seminarau aelodau, cyfarfodydd ardal seiliedig ar le a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

- Mae **Cynghorau Cymuned** yn Nhorfaen wedi derbyn cyflwyniadau s6 ac maent wedi cymryd rhan yn y broses o ymgynghori ar seilwaith gwyrdd Torfaen.

- Cynhaliwyd gweithdy dilynol ar **Swyddogion Strydlun** i drafod cynnydd ar ddulliau amgen o reoli mannau gwyrdd.

- I ddilyn seminar i gynghorwyr yn 2018, cynhaliwyd **seminar i aelodau** ar ddyletswyddau bioamrywiaeth cyrff cyhoeddus yn yr haf, 2022.

- Cynhaliwyd **gweithdai bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd** gydag aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd i amlinellu polisi.

- Mae swyddogion y Tîm Ecoleg a Thirwedd yn gweithio'n agos gyda'r broses **cynllunio defnydd tir** i sicrha bod y ddyletswydd a6 yn cael ei chymryd i ystyriaeth ym mhob penderfyniad cynllunio. Mae'r cyngor a ddarperir yn dilyn y canllawiau a bennwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) a chyngor gan Brif Swyddog Cynllunio Llywodraeth Cymru, gan ail-bwysleisio y dylid ystyried gwrthod caniatâd cynllunio lle na ellir sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth.

- Yn ystod y cyfnod adrodd hwn (2019-22) anfonwyd rhyw 50+ o **ddatganiadau i'r wasg** yn Nhorfaen sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, natur/newid yn yr hinsawdd mewn rhyw ffordd.

**Amcan 2 NRAP: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

Mae'r amcan NRAP hwn yn mesur camau a gymerir i amddiffyn a gwella rhywogaethau a chynefinoedd a restrir fel rhai sy'n bwysig i Gymru yn ôl adran 7 y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

### 4.2.1 Camau a gymerwyd

- Mae saith **gwarchodfa Natur Leol** (LNR) ac un **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGA) yn cael eu rheoli yn unol â chynlluniau rheoli a gytunwyd.

- Mae oddeutu 163 **Safle o bwysigrwydd er Cadwraeth Natur** (SINC) wedi eu dynodi yn Nhorfaen.

- Mae rhwydwaith bwrdeistrefol sirol-eang o **fannau gwyrdd ac ymylon ffyrdd** yn cael eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt a pheillwyr.

- Mae nifer o **gylchfannau** yn cael eu plannu gyda thyweirch a hadau blodau gwyllt.

- Cyflwynwyd dull o **wrthbwyso bioamrywiaeth** i sicrhau bod ardal sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer datblygiad yn CDLl Torfaen sy'n cefnogi rhywogaethau a chynefinoedd a7 yn cael eu cadw drwy reoli a gwella cynefin cyfagos o ansawdd gwael.

- Drwy'r broses o gynllunio defnydd tir, argymhellir parthau clustogi 15 medr o gwmpas **coedlannau hynafol.**

- Nodir tri **coridor ecolegol** llinellol strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol presennol Torfaen.

- Lle mae **SINC** yn cael eu difrodi neu eu colli lle na ellir osgoi hynny, gofynnir am liniaru a/neu iawndal bob amser yn unol a'r dull a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11.

- Mae gan ddau LNR **Wobr Baner Werdd.** Yn ychwanegol at hyn mae gan Barc Pont-y-pŵl a Llyn Cychod Cwmbrân statws Baner Werdd hefyd.

- Mae rhaglen reoli ar gyfer **Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol (INNS)** megis clymog Japan yn bodoli ar gyfer tir yr awdurdod lleol.

- Cyflwynwyd ***gwiddonyn Azolla*** yn llwyddiannus i reoli ardal sylweddol o redynen ddŵr ymledol ar Gamlas Sir Fynwy – Aberhonddu ar gyrion Cwmbrân.

- Mae **rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7** o ystyriaeth berthnasol yn y broses cynllunio defnydd tir. Lle mae'r nodweddion hyn yn bresennol ar safle datblygu arfaethedig, gofynnir am fesurau o warchod a gwella bob amser yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 11.

- Adroddir ar **fesur perfformiad mewnol** yn delio gyda thir dan reolaeth bositif ar gyfer bioamrywiaeth bob blwyddyn.

- Mae **Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP**) ar gyfer Gwent fwyaf wedi ei gynhyrchu gydag amrediad o gamau gweithredu ar gadwraeth natur.

- Fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 5 (Cadwraeth Natur a Chynllunio, mae **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen (LBAP)** gyda'i gyfres o gynlluniau gweithredu ar rywogaethau a chynefinoedd yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth bioamrywiaeth leol ar gyfer y system gynllunio.

- Plannwyd dwy **berllan** newydd ym Mharc Brooklands a Llyn Cychod Cwmbrân.

## 4.2 Amcan 3 NRAP: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.

Mae'r amcan hwn yn ymwneud â chamau positif a gymerwyd i wella chreu cynefinoedd. Gall hyn gynnwys plannu coed, reoli safleoedd gwarchodedig neu newidiadau mewn trefniadau rheoli glaswelltir.

### 4.3.1 Camau a gymerwyd

- **Gwelliannau tirwedd** gan gynnwys plannu coed brodorol a phlanhigion cyfeillgar i beillwyr mewn llawer o ardaloedd gan gynnwys Gerddi Oakfield a chae chwarae Garn yr Erw.

- Mae gan gynllun plannu ar gyfer **gardd law draeniad cynaliadwy** yn Ysgol Panteg bwyslais cryf ar fioamrywiaeth.

- Mae **Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru (SEWRU)** yn gweithio gyda thirfeddianwyr a chonomiwyr i adfer cynefinoedd corsydd mawn ar ucheldiroedd Mynydd Maen a Blaenafon.

- Mae **Strategaeth Coed Torfaen** yn pwysleisio gwerth coed, yn enwedig rhai trefol a'r angen i ddatblygu cynllun i gynyddu'r canopi coed yn y fwrdeistref sirol.

- Mae **gwaith rheoli grug** wedi digwydd ar SoDdGA Blorenge i sefydlu mosaig o lystyfiant sy'n amrywiol o ran oed a strwythur. Cefnogir y gwaith hwn gan dirfeddianwyr a chominwyr. Mae cynllun rheoli wedi'i ddiweddaru ar gyfer SoDdGA Blorenge nawr wedi ei gwblhau.

- Mae gwaith **rheoli coed coniffer** wedi ei wneud ar gynefin ucheldirol yn cyffinio SoDdGA Blorenge. Mae'r coed hyn yn bygwth cyfanrwydd yr SoDdGA ac fel tirfeddiannwr mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyfrannu at gadw'r safle mewn cyflwr ffafriol.

- Mae'r saith **Gwarchodfa Natur Leol** yn cael eu rheoli ar gyfer pobl a bioamrywiaeth.

- Sefydlwyd **dau bwll newydd** yn LNR Llynnoedd Garn gan ddefnyddio cyllid o brosiect Gwent Gydnerth i greu cynefin i gefnogi rhywogaethau fel y madfall ddŵr gribog.

- Mae nifer o ymylon ffyrdd a chylchfannau wedi eu hadu gyda **blodau gwyllt brodorol** fel rhan o Gynllun Gweithredu Peillwyr Torfaen. Mae eraill yn cael eu rheoli drwy raglen o dorri a chasglu.

- Gan weithio gyda da byw o Fferm Gymunedol Dôl Werdd, cafwyd treial **pori cadwraethol** ar ddau safle glaswelltir.

### 4.4 Amcan 4 NRAP: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

Gellir lliniaru pwysau ar fioamrywiaeth drwy fabwysiadu atebion seiliedig ar natur. Mae adrodd dan y mesur hwn yn cynnwys unrhyw gamau sy'n lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd naturiol.

#### 4.4.1 Camau a gymerwyd

- Drwy gyfrwng canllawiau a nodwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol, mae gan y **Tîm Rheoli Datblygiad** ddyletswydd statudol i wreiddio'r ddyletswydd a6 o fewn

penderfyniadau cynllunio defnydd tir. Mae'r tîm hwn yn alluogwr allweddol y ddyletswydd a6.

Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a chaniatâd arall, mae'r tîm yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor ar gynigion sy'n cael effaith ar yr amgylchedd a rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig. Ceir tystiolaeth o hyn, lle bo angen, drwy ymgymryd ag arolygon ecolegol, Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) ac asesiadau Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Mae'r tîm yn dilyn dull cam wrth gam o ddelio gyda bioamrywiaeth mewn penderfyniadau cynllunio, gyda chamau lliniaru/iawndal a gwella yn cael eu sicrhau yn unol â chyngor gan ecolegydd mewnol y Cyngor.

Mae llawer o enghreifftiau o geisiadau cynllunio a addaswyd i warchod cynefinoedd a gwella gwytnwch ecosystemau drwy fabwysiadu atebion seiliedig ar natur megis dylunio tirwedd ffurfiol a/neu anffurfiol, systemau draenio trefol cynaliadwy a thoeau gwyrdd ac yn y blaen.

- Mae gan **Dîm Amddiffyn y Cyhoedd** gyfrifoldebau rheoleiddio gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfrannu'n anuniongyrchol i'r ddyletswydd a6 a'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd drwy ganiatâd amgylcheddol gweithgareddau diwydiannol, monitro aer glân a rheoli llygredd. Cydnabyddir llygredd fel un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth.

- Mae **Polisi a Gweithredu Cynllunio** wedi dechrau gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP), gyda pholisïau arfaethedig ar fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Mae Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (HRA) ac Asesiadau Safleoedd Posibl gan gynnwys arolygon ecolegol wedi'u diweddaru, wedi eu cwblhau. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Hefyd, cyhoeddwyd **Nodyn Canllaw Arolwg Ecoleg** yn 2020.

  Fel galluogwr allweddol o'r ddyletswydd a6, mae'r tîm hwn wedi ceisio sicrhau bod holl safleoedd a ystyrir ar gyfer eu cynnwys yn y CDLlN yn dderbyniol o ran eu heffaith ar fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Er enghraifft, cafodd safle i'r de o Gwmbrân, a ddynodwyd fel SINC, ei wrthod oherwydd ei werth ecolegol a chysylltedd gyda chynefinoedd o gwmpas.

- Mae'r **grŵp Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg** yn gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd, diogelwch a gwelliannau. Lle mae gan gynlluniau effaith bosibl ar fioamrywiaeth, rhoddir cyngor gan yr ecolegydd mewnol i sicrhau bod effeithiau yn cael eu lleihau a gwelliannau yn cael eu cynnwys. Enghraifft o hyn yw datblygiad parhaus llwybr **Teithio Llesol**.

- Mae **Adfywio Strategol** yn gyfrifol am gyflenwi prosiectau adfywio gyda bioamrywiaeth wedi ei gynnwys ar bob lefel o'r prosiect. Un enghraifft yw adfywio'r dirwedd ôl-ddiwydiannol yn y **British,** ger Talywaun. Mae'r uwchgynllun ar gyfer y gwaith yn ceisio creu *'cymuned gynaliadwy yn elwa o'r diwedd naturiol ddramatig gyda chyfoeth o gymeriad hanesyddol,* gan ddefnyddio atebion seiliedig ar natur i greu cwr dwr ar draws y tir gyda phwll a gwely brwyn. Mae partneriaeth gydag Ymddiriedaeth Natur Gwent wedi helpu i gynnwys y gymuned leol drwy gyfres o deithiau cymunedol a thasgau rheoli cynefin.

  Drwy benodi Cydgysylltydd Camlas yn 2021, cafwyd cynnydd o ran cydnabod gwerth bioamrywiaethol **Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu** fel coridor ecolegol strategol. Mae tîm traws-adrannol yn gweithio ar hyn o bryd ar Gynllun Rheoli Camlas wedi'i ddiweddaru. Cafwyd cyfres o deithiau cynyddu ymwybyddiaeth gan Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn ystod yr haf 2022 ac mae arolwg cyfranogiad cyhoeddus yn ddiweddar wedi dangos sut mae defnyddwyr y gamlas yn gwerthfawrogi bioamrywiaeth.

  Comisiynwyd dau **Gynllun Creu Lle** ar gyfer Blaenafon a Phont-y-pŵl yn 2022. Mae Cynllun Pont-y-pŵl yn cynnwys gwella mannau gwyrdd presennol.

- Mae rhaglen ar gyfer trin a rheoli **rhywogaethau ymledol anfrodorol** (INNS) yn enwedig clymog Japan, yn bodoli.

- Ymgymerir â rheoli **INNS** eraill achos wrth achos. Er enghraifft, tynnu Jac y Neidiwr ar Warchodfa Natur leol Henllys a chyflwyno gwiddonyn *Azolla* i reol rhedyn dŵr ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.

- Mae **Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)** yn ofynion pwysig y system cynllunio defnydd tir. Gall SUDS wedi eu dylunio'n dda ar safleoedd datblygu hefyd helpu i warchod a gwella bioamrywiaeth.

- Mae'r **Tîm Rheoli Ynni** wedi bod yn cefnogi cyfleoedd i leihau allyriadau carbon yn unol â tharged sero net y Cyngor o 2030. Wrth wneud hynny, mae'r tîm yn ymgorffori gwelliannau bioamrywiaeth lle bo modd i sicrhau enillion net.


- Ym mis Mawrth 2022, penderfynodd y Cyngor hybu cynnwys **priffyrdd draenogod** lle bynnag y bo modd yn Nhorfaen.

### 4.5 Amcan 5 NRAP 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.

Mae cymryd penderfyniadau cynaliadwy yn gofyn am sylfaen tystiolaeth dibynadwy i sicrhau bod camau yn cael eu targedu ac yn gost-effeithiol. Gall adrodd dan y mesur hwn gynnwys defnyddio gwybodaeth o'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol a gwybodaeth amgylcheddol arall.

### 4.5.1 Camau a gymerwyd

- I helpu i fesur cynnydd o ran **carbon sero net** mae'r Cyngor wedi defnyddio Canllaw Adrodd Llywodraeth Cymru a'r pecyn i amcan faint o garbon a gaiff ei storio mewn tir ym meddiant a rheolaeth y Cyngor. Mae'r siart canlynol yn dangos Gwerth gwyrdd o ran gwrthbwyso allyriadau carbon.




- Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn bodoli gyda **Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC).** Mae hwn yn darparu gwasanaeth sgrinio ar gyfer holl geisiadau cynllunio ac mae ganddo'r capasiti hefyd i ddarparu chwiliadau data i swyddogion a rheolwyr prosiect sydd angen data bioamrywiaeth er mwyn cymryd penderfyniadau a chynllunio prosiectau.

- Mae **Asesiad Seilwaith Gwyrdd** wedi ei baratoi i ddarparu sylfaen tystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen.

- Mae **haen Seilwaith Gwyrdd** nawr yn bodoli ar system GIS fewnol y Cyngor.

- Mae'r rhestr o **rywogaethau a chynefinoedd sydd o bwys mawr yng Nghymru** fel y nodir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael ei hystyried bob amser yn y broses o gynllunio defnydd tir.

- Mae gwaith wedi cychwyn ar ddiweddaru **tudalennau amgylchedd naturiol** gwefan yr awdurdod lleol, i sicrhau bod yr wybodaeth yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb.

- Mae cyhoeddi **Adroddiad Cyflwr Natur Gwent (2022)** wedi diweddaru gwybodaeth ar statws cadwraeth ystod gynhwysfawr o gynefinoedd a rhywogaethau.

- Mae **arolwg ecolegol enghreifftiol** a ymgymerwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn 2021 o safleoedd torri a chasglu a reolir gan y Cyngor wedi adnabod nifer fel rhai o ansawdd SINC posibl.

## 4.6 Amcan 6 NRAP: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

Mae adrodd dan yr amcan hwn yn cynnwys camau a gymerwyd i ddatblygu fframwaith o lywodraethu ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth. Er enghraifft, drwy sicrhau bod swyddog yn gyfrifol am fonitro cynnydd.

### 4.6.1 Camau a gymerwyd

- Mae **Aelod Gweithredol y Cyngor ar gyfer yr Amgylchedd** yn goruchwylio gweithrediad ein Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyrff Cyhoeddus.

- Rhoddir **cyngor ar ecoleg a bioamrywiaeth** gan swyddogion cymwysedig yn y Tîm Polisi Ecoleg a Thirwedd. Mae cyngor arbenigol ar gael i bob swyddog a chymerwyr penderfyniad mewn perthynas â chydymffurfio gyda'r ddyletswydd a6.

- Mae **cyllid allanol** drwy amrediad o ffynonellau ariannu wedi ei sicrhau i gefnogi prosiectau sy'n ychwanegol at y dyletswydd bioamrywiaeth craidd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu nifer o astudiaethau achos cymorth grant sy'n enghreifftiau o ddull Torfaen o ddelio gyda'r amcan hwn.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cefnogi datblygiad Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen a'i huno gyda Phartneriaeth Natur Leol ar y cyd rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae Torfaen ar hyn o bryd yn cynnwys **Cydgysylltu LNP** wedi ei ariannu drwy LNP Cymru.

- Drwy brosiect Gwent Gydnerth, mae **Adroddiad Cyflwr Natur** wedi ei gynhyrchu. Bydd hwn yn darparu'r asesiad diweddaraf o gyflwr natur yn Ne-ddwyrain Cymru a darparu sylfaen tystiolaeth ar gyfer cymryd penderfyniadau.

- Mae'r Tîm Polisi Ecoleg a Thirwedd wedi ehangu i gynnwys **staff ecoleg ychwanegol** ynghyd â'r Cydgysylltydd Partneriaeth Natur Leol a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a grybwyllwyd uchod.

## 5.0 Arolwg o'r Ddyletswydd a6 – rheoli perfformiad ac argymhellion ar gyfer gwella.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r adran hon yn nodi rhai materion allweddol ynglŷn â gweithredu'r ddyletswydd a6 o fewn y Cyngor a'r mesurau sydd eu hangen i wreiddio'r ddyletswydd ymhellach ar draws gwasanaethau. Wrth wneud hynny, mae'n cydnabod y cynnydd arwyddocaol a wnaed o ran newid ymddygiad ers yr adroddiad blaenorol. Dylid cynnwys yr argymhellion canlynol yn Nhabl 1 mewn diweddariad i ddod ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Torfaen (BERP).

**Tabl 1. Argymhellion**

| | Mater | Camau Gweithredu | Adran / Tîm Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Er bod gweithredu'r ddyletswydd a6 ledled yr awdurdod lleol wedi gwella'n arwyddocaol, amlygodd rhai ymatebwyr i'r rownd adrodd hon yr angen am barhau i hyfforddi staff. | Gweithio gydag arweinwyr adrannol a staff arall ar draws meysydd gwasanaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd a6 drwy ystod o fecanweithiau megis hyfforddiant pwrpasol a chysylltu gyda'r modiwl E-ddysgu Argyfwng Hinsawdd a Natur. | Polisi Amgylcheddol a Gweithrediadau Strydlun | 2023 |
| 2. | Drwy sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth, mae'r Timau Rheoli Datblygiad a Pholisi Cynllunio a Gweithredu yn alluogwyr allweddol o'r ddyletswydd a6. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefn fonitro yn bodoli ar hyn o bryd i fesur nifer y ceisiadau cynllunio sy'n sicrhau gwelliannau. | Gweithio gyda'r Tîm Rheoli Datblygiad i fonitro a mesur y canran o geisiadau cynllunio gyda gwelliannau bioamrywiaeth | | 2023 |
| 3. | Mae gan yr awdurdod lleol record lwyddiannus o sicrhau adnoddau allanol i gefnogi camau ymarferol ar gyfer bioamrywiaeth. | Lle bynnag y bo modd, parhau i geisio cyllid allanol i gefnogi a chyd-fynd ag ymrwymiadau presennol a6. | Polisi Amgylcheddol a Gweithrediadau Strydlun | 2023 -25 |
| 4. | Rhaid i benderfyniadau a gymerir ar bob lefel ddangos ystyriaeth ddigonol o'r ddyletswydd a6. Dylid monitro'r templed llesiant sydd ynghlwm wrth adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi ei wreiddio o fewn y broses o gymryd penderfyniadau. | Asesu sampl cynrychioladol o adroddiadau pwyllgor o ran cydymffurfio a6 a chynnig argymhellion. | Uned Cymorth Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC) | 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Hybu defnydd ehangach gan swyddogion o'r wybodaeth amgylcheddol orau megis asesiadau seilwaith gwyrdd a haenau GIS mewnol er mwyn cynorthwyo gyda rheoli prosiectau a chymryd penderfyniadau cynaliadwy. | Hyrwyddo defnyddio o GIS mewnol a gwybodaeth amgylchedd naturiol wrth gymryd penderfyniadau drwy hyfforddi swyddogion. | Polisi Amgylcheddol a Gweithrediadau Strydlun | 2023 |
| 6. | Mae'r awdurdod lleol yn rheoli'r rhan fwyaf o'i stad feddal drwy raglen reolaidd o reolaeth mannau gwyrdd. | Gweithio gyda'r Tîm Gweithrediadau Strydlun i ddatblygu rhaglen o reoli glaswelltir sy'n cydnabod manteision aml-swyddogaeth mannau gwyrdd a chynyddu hyn dros amser. | Polisi Amgylcheddol a Gweithrediadau Strydlun | 2023-25 |
| 7. | Mae'r awdurdod lleol yn berchen ar fannau gwyrdd a osodir ar gyfer pori a dibenion eraill. Mae gan yr ardaloedd hyn rôl i'w chwarae o ran gwrthbwyso effeithiau ar fioamrywiaeth a storio carbon. | Rheoli Asedau a chymerwyd penderyniadau eraill i adnabod ardaloedd gwyrdd y gellir eu defnyddio i wella bioamrywiaeth, storio carbon a lles y cyhoedd. | Rheoli Asedau | 2023 |
| 8. | Mae'n bwysig bod systemau mewnol rheoli prosiect mewnol yn cael eu haddasu i ystyried y ddyletswydd a6 yn gynnar yn y broses. | Gwreiddio'r ddyletswydd a6 o fewn systemau rheoli prosiect. | | 2023 |

# Atodiad 1. Prosiectau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau – astudiaethau achos.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn enghreifftiau o brosiectau allweddol a gyflenwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (2020-22). Maent oll yn cyfrannu tuag at warchod a gwella bioamrywiaeth, a gwytnwch ecosystemau a storio carbon yn Nhorfaen.

### a. Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru (SEWRU)

Mae tirwedd ucheldirol Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent yn wynebu amrywiol heriau o drosedd tirwedd, colli cynefinoedd a rhywogaethau allweddol i seilwaith gwael a chymunedau bratiog. Gan adeiladu ar brosiect cyfranogiad cymunedol helaeth blaenorol, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar weithredu cydweithredol newydd i wella'r ucheldiroedd a chreu cymunedau mwy cydnerth.

Roedd dull cydweithredol y prosiect yn cynnwys mewnbwn gan y tri awdurdod lleol, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cymdeithasau Comin, grwpiau gweithredu, undebau ffermio a Pharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd y ffocws ar reoli tir i wella ansawdd y pridd a'r dŵr, bioamrywiaeth a storio carbon.

Roedd cryfhau'r berthynas rhwng rhanddeiliaid a chominwyr i gefnogi cymunedau ucheldirol, meithrin capasiti drwy wirfoddoli, hyfforddiant a chyfranogiad cymunedol, ymgysylltiad, cynyddu cystadleugarwch ffermydd a hyfywedd drwy arall gyfeirio a datblygu cyfleoedd busnes arloesol hefyd yn amcan o'r prosiect. Ystyriwyd delio gydag achosion sylfaenol dirywiad yn yr ucheldir a achosir tan reolaeth tir wael a phroblemau gwrthgymdeithasol megis tipio anghyfreithlon, gosod tanau, gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau adloniant tawel a gwella cynnig twristiaeth yr ardal. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

- Adfer mewndir – gan gynnwys astudiaeth adfer, monitro, arolygon drôn a dau brosiect adfer ymarferol;
- Cynllun rheoli troseddau tirwedd 10 mlynedd;
- Cynllun tanau gwyllt De-ddwyrain Cymru;
- Cynllun arloesi comins Mynydd Maen;
- Rheoli grug a rhedyn;
- Cyngor a hyfforddiant rheoli tir.

Daeth y prosiect hwn i ben yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ond bydd swyddog newydd ei benodi yn parhau gydag elfennau craidd y prosiect SEWRU project.

## b. Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen – LNP Cymru.

Sefydlwyd Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen ym 1999 i oruchwylio gweithrediad y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP). Roedd y bartneriaeth hon yn cynnwys cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, cyrff llywodraeth eraill, cyrff anllywodraethol, cadwraethwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyda diddordeb. Yn 2018, unodd partneriaeth Torfaen gyda Blaenau Gwent i ffurfio **Partneriaeth Natur Leol ar y cyd (LNP).**

Cafwyd cyllid drwy Grant Galluogi Adnoddau naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru (ENRaW) a'i gweinyddu drwy Gyngor Cymru ar gyfer gweithredu gwirfoddol (WCVA) i gyflogi rhwydwaith Cymru eang o gydgysylltwyr LNP dan faner LNP Cymru. Yn Nhorfaen mae'r cydgysylltydd ar gyfer LNP Blaenau Gwent a Thorfaen.

Nod y prosiect yw gwneud gwahaniaeth hirdymor cynaliadwy i stopio a gwrthdroi dirywiad yr amgylchedd naturiol, fel y manylir yng nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru a'r Polisi Adnoddau Naturiol, gan ddefnyddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) i harneisio adnoddau cyfunol cymunedau, gwirfoddolwyr, cyrff cyhoeddus a busnesau (y tu hwnt i gynulleidfaoedd traddodiadol) i gymryd camau gweithredu gwybodus, a arweinir gan dystiolaeth o fewn ardaloedd awdurdod lleol neu barciau cenedlaethol.

## c. Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Dyluniwyd y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) gyda'r nod o dreialu ymyraethau graddfa leol sy'n cefnogi natur. Prif ffocws yr LPfN yw cysylltu gyda chymunedau ac annog cyfranogiad yn yr ymdrechion i greu lleoedd ar gyfer natur, gan gyfrannu yn ei dro i gadwraeth a chynaliadwyedd bioamrywiaeth ynghyd a manteision cymdeithasol a lles rhyngweithio gyda natur. Yn bwysig, nod yr ymyrraeth yw bod ar raddfa cymharol fychan a lleol, ond gweledol, i sefydlu a datblygu natur hygyrch 'ar stepen y drws'.

Yn Nhorfaen, mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg am ddwy flynedd ac mae cyllid wedi helpu i adfer cynefinoedd llinellol fel gwrychoedd a waliau carreg. Mae wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid llwyddiannus wrth reoli glaswelltir trefol drwy brynu offer torri a chasglu mawr ei angen. Mae hefyd wedi helpu i gynyddu plannu coed a ymgymerwyd mewn parciau a mannau gwyrdd eraill. Rhoddwyd grantiau bychain i grwpiau cymunedol a rhoddwyd cefnogaeth i dreial pori cadwraethol. Roedd sefydlu sylfaen tystiolaeth a monitro hefyd yn nodwedd o'r rhaglen.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol. Cyfwelwyd y Cydgysylltydd LPfN gan radio BBC Wales a newyddion BBC Wales a chysylltu gyda'r fenter Wythnos Werdd Fawr mewn partneriaeth a phrosiect celfyddyd cymunedol o'r enw Head4Arts Cariad Coed (Love Trees).

Eleni, ymwelodd Julie James Aelod y Senedd ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd â safle ym Mhont-y-pŵl i weld y gwaith sydd wedi ei wneud gyda thrigolion i newid sut caiff eu man gwyrdd lleol ei reoli.

Bydd y gaeaf hwn yn gweld parhad gwaith LPfN drwy reoli Gwarchodfeydd Natur Lleol a safleoedd coedlannau hynafol.




*Arwydd man gwyrdd Rhwydweithiau Natur*



*Julie James Aelod y Senedd ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd ar ymweliad â Thorfaen i gyd-daro gyda'r Diwrnod Bioamrywiaeth Rhyngwladol.*

### d. Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Gwent Fwyaf Gydnerth (RGG).

A Resilient Greater Gwent

Ariannwyd **Gwent Gydnerth (RGG)** drwy Grant Galluogi Adnoddau Antur a Llesiant Llywodraeth Cymru. Rhedodd y prosiect traws-sector hwn o 2019-haf 2022 a chyflenwi dan nifer o is-benawdau prosiect.

Cyflawnodd y prosiect:

- Rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol cydnerth gwell yng Ngwent;

- Meithrin mewid mewn diwylliant i roi bioamrywiaeth wrth graidd cymryd penderfyniadau;
- Roedd pobl yn cysylltu fwyfwy gyda natur ac anogwyd ffordd o fyw gynaliadwy, gan gefnogi eu hiechyd a'u lles;
- Cymerwyd camau yn erbyn y pum elfen anthropogenaidd o golled bioamrywiaeth: newid yn yr hinsawdd, llygredd, newid a cholli cynefinoedd, rhywogaethau ymledol anfrodorol ac ecsbloetio.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r gwaith a wnaed dan brosiect Gwent Gydnerth:

- Cyflenwi pecynnau Bywyd Gwyllt a Lles;
- Arolygon bioamrywiaeth Ystlumod Trefol (gwyddoniaeth dinasyddion);
- Creu uwchgynllun ardal drefol i greu safle yn ymgorffori chwarae, lles, mannau gwyrdd mwynderol a bioamrywiaeth;
- Byrddau dehongli newydd Gwarchodfa Natur Leol gyda chodau QR yn cysylltu cymunedau gyda SEWBReC (Canolfan Cofnodion Biolegol De-ddwyrain Cymru);
- Cynlluniau rheoli tiroedd eglwysi i annog grwpiau gwirfoddolwyr lleol i reoli'r ardaloedd hyn er budd bioamrywiaeth;
- Creu Nodyn Canllaw Bioamrywiaeth i Ddeiliaid Tai a Datblygiadau Bach i gynorthwyo'r tîm Cynllunio a Datblygu i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth drwy'r broses gynllunio;
- Trin INNS (Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol) ar draws y fwrdeistref;
- Reoli prysgwydd parhau glannau afonydd a chreu cynefinoedd ar hyd Afon Llwyd;
- Camau a gymerwyd mewn ymateb i gyflwyno NRAP Gwent, megis creu/crafu pyllau ac adfer pyllau.

### e. Grant galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Prosiect Grid Gwyrdd Gwent (GGGP).

Nod **Partneriaeth grid Gwyrdd Gwent** yw gwella a datblygu seilwaith gwyrdd – term a ddefnyddir i ddisgrifio'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n cysylltu pentrefi, trefi a dinasoedd. Mae gan

seilwaith gwyrdd rôl hollbwysig o ran delio gyda natur, newid yn yr hinsawdd, ac argyfyngau iechyd. Mae Cyngor Sir Fynwy (partner arweiniol) yn gweithio gyda Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Ymchwil Coedwigoedd ac Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, i sicrhau bod adnoddau naturiol yr ardal yn iach, yn gwrthsefyll pwysau a bygythiadau ac felly'n gallu darparu manteision hanfodol iechyd a lles yn well r gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r prosiect wedi cyflenwi amrediad o fanteision lles i gymunedau lleol a gwelliannau i fannau gwyrdd, parciau trefol, llwybrau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus. Mae hefyd wedi cefnogi rheoli a chreu coedlannau, ac wedi cymryd camau i warchod a gwella cynefinoedd hanfodol i beillwyr.

Bydd y GGGP yn gwireddu ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, drwy well cydweithrediad gyda phartneriaid yn cynnwys dinasyddion lleol a chyflenwi ar bob un o'r saith amcan lles.



*Bwrdd Dehongli Natur Wyllt*

Mae **Natur Wyllt** yn is-brosiect o'r GGGP. Mae'n cefnogi partneriaeth i newid sut mae mannau cyhoeddus yn cael eu rheoli ac yn adeiladu ar waith a gychwynnwyd eisoes yn Nhorfaen. Mae wedi cynhyrchu amrywiaeth o ddefnydd dehongli gan gynnwys fideos ac arwyddion ar safleoedd ynghyd â chyllid i helpu cefnogi rheolaeth tir ar gyfer bioamrywiaeth.

### f. Cyfeillion Gwarchodfa Natur (LNR) Leol Henllys

Mae **Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Henllys** yn grŵp cymunedol gwirfoddol gyda chyfansoddiad llawn gyda'r nod o gynnal a gwella'r LNR i bobl a bywyd gwyllt. Anogir gwirfoddolwyr i ymgymryd â thasgau ymarferol cadwraeth natur a mynediad a hybu gwerth a pharch tuag at y man gwyrdd hwn yn y gymuned leol.

Mae'r grŵp wedi cofnodi mwy na 11,000 o oriau gwirfoddolwyr yn cwblhau amrywiol ymyraethau rheoli tir ymarferol. Un peth pwysig iawn y mae wedi e wneud yw gwaith rheoli llafurus Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol (INNS), yn nodedig Jac y Neidiwr. At hyn, mae wedi rheoli nifer o ardaloedd bychain o laswelltir drwy'r dull traddodiadol o bladuro a mabwysiadu'r dull torri a chasglu. Mae cofnodi bywyd gwyllt o ystlumod i wyfynod yn arf monitro pwysig ac felly mae'r holl gofnodion yn cael eu cyflwyno gan y grŵp i'r ganolfan cofnodion bioamrywiaeth leol.

Cryfder arall y grŵp yw ei allu i fod yn hunan-gynhaliol drwy ystod o geisiadau llwyddiannus am gyllid, gan gynnwys gan Cadw Cymru'n Daclus, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymunedol Uwch Siryf Gwent, gyda grantiau o fwy na £40,000 wedi eu sicrhau hyd yma. Yn fwy diweddar, mae cymorth wedi ei dderbyn i sefydlu treial bychan blodau gwyllt brodorol. Mae perllan gymunedol a sefydlwyd rai blynyddoedd yn ôl bellach yn cynhyrchu ffrwyth i bobl a bywyd gwyllt ac yn ffynhonnell o ffrwyth sy'n cynhyrchu sudd afal y grŵp ei hunan.

Mae LNR Henllys yn boblogaidd iawn gyda phobl leol i fynd â'r ci am dro a defnyddwyr eraill. Mae'r grŵp yn rhagweithiol yn ei rôl fel addysgwr cymunedol, gan ymgysylltu gyda defnyddwyr drwy ddeunydd dehongli ar y safle. Mae ganddo hefyd bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol ar llwyfannau lluosog.

Mae'r rôl addysgu hon wedi ei hymestyn i ysgolion cynradd lleol, grwpiau cybiau, afanc a grŵp sgowtiaid. Pan fydd y plant yn cymryd rhan mewn tasgau ymarferol neu weithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion megis monitro pyllau, mae'n helpu i feithrin eu hymwybyddiaeth amgylcheddol, hunan-barch a hyder ac yn helpu i wreiddio teimlad o berchnogaeth yn yr LNR.

Mae'r grŵp wedi cael gwobr Baner Werdd Gymunedol am yr wyth mlynedd ddiwethaf ynghyd â Gwobr Bioamrywiaeth Cadw Cymru'n Daclus.